

## Craidd

### Sbardun 1 – Esperanto: Dysgu ar lein

Jambo ydw i ac rydw i'n gallu siarad ac ysgrifennu Esperanto! Dyma'r iaith i bawb yn y byd!

Mae Esperanto yn iaith NIWTRAL.

Mae'n perthyn i bob gwlad HAWDD.

Fe fedri di ei dysgu yn gyflym LLAWN HWYL.

Fe fyddi di'n gallu cyfathrebu gyda phobl o bob man yn y byd.

Dilyna fi i weld pa mor hawdd ydy hi!

Mae pob enw yn gorffen gyda 'o'

birdo - aderyn

domo - tŷ

hundo - ci

I wneud enw lluosog mae'n syml! Dim ond ychwanegu 'j'

Amikoj - ffrindiau

Arboj - coed

Libroj - llyfrau

Mae pob ansoddair yn gorffen gyda 'a'

Varma -cynnes

Sana - iach

Granda - mawr

I greu ansoddair croes ei ystyr y cwbl sy'n rhaid ei wneud ydy rhoi 'mal' o'i flaen

Alta = tal > Malalta - byr

Bela = tlws/del > Malbela - hyll

Nova = newydd > Malnova - hen

Mae pob berf yn gorffen gyda 'i'

Doni - rhoi

Vidi - gweld

Havi - cael

Tyrd gyda fi i gyfarfod â phobl sy'n siarad Esperanto.



### Rachel Perusse, Gatineau, Quebec

Roedd fy hen ewythr yn arbenigwr ar Esperanto ac rydw innau wrth fy modd gydag ieithoedd. Yn y coleg fe wnes i astudio Rwsieg ac rydw i'n gallu siarad Almaeneg, Ffrangeg ac Eidaleg. Mae Esperanto yn llawer mwy syml na'r un o'r rheiny.



**David Keble, Birmingham**

Os oes arnoch eisiau teithio'r byd a siarad gyda phobl yn gyfartal dylech ddysgu Esperanto.



**Matthew, Paris**

Mewn byd ble mae gwledydd yn dal i ffraeo efallai y byddai un iaith yn ein huno.



**Phillippo, Rhufain**

Mae mwy na 2,000 o bobl yn siarad Esperanto ym Mhrydain a rhwng 500,000 a dwy filiwn yn y byd. Felly, mae'n rhaid bod rhyw werth iddo.



**Jo Bowen, Burton**

Rydw i'n dysgu Esperanto mewn ysgol gynradd yn Lloegr. Mae'n rhoi dechrau gwych ar ddysgu iaith i'r disgyblion oherwydd mae'n hawdd ac mae'n rhoi hyder iddyn nhw. Maen nhw'n cael y teimlad o 'Rydw i'n gallu gwneud hyn'.

## Craidd

### Sbardun 2 – Ceisio gwneud synnwyr

Sawl tro ydych chi wedi clywed athro neu athrawes yn cwyno, 'Rhaid i ti atalnodi! Fedra i ddim gwneud pen na chynffon o dy waith di!' Ond pe baen ni'n defnyddio hieroglyphics fel yr hen Eifftiaid fyddai dim rhaid i ni boeni am atalnodi oherwydd doedden nhw ddim yn atalnodi o gwbl! Doedden nhw ddim yn defnyddio llafariaid chwaith!

#### **Beth ydy ystyr y gair 'hieroglyph'?**

Mae wedi cael ei wneud o ddau air Groeg:

hieros sy'n golygu 'sanctaidd'

glyphe sy'n golygu 'ysgrifen'

Felly ystyr hieroglyph ydy 'ysgrifen sanctaidd'. Roedd yn defnyddio lluniau i gynrychioli pethau, digwyddiadau, synau a syniadau. Roedd mwy na 700 symbol. Roedd rhai lluniau yn cynrychioli geiriau cyfan.

#### **Sut ydyn ni'n gwybod sut i ddarllen hieroglyphics ?**

Yn 1799 cafodd carreg ei darganfod yn el-Rashid (Rosetta) yn yr Aifft. Arni roedd ysgrifen mewn dwy iaith - Eiffteg a Groeg a thri math o sgrïpt - hieroglyphig sef y sgrïpt oedd yn cael ei ddefnyddio mewn dogfennau crefyddol pwysig, demotig sef sgrïpt cyffredin yr Aifft a Groeg, yr iaith oedd yn cael ei defnyddio gan y rhai oedd yn rheoli'r Aifft ar y pryd.

#### **Sut ydyn ni'n gwybod ym mha ffordd i ddarllen Hieroglyphics?**

Mae'n rhaid edrych yn fanwl ar yr hieroglyphs i wybod ym mha ffordd i'w darllen. Mae'n dibynnu ar ba ffordd mae'r bobl neu'r anifeiliaid yn wynebu. Os ydy anifail yn wynebu i'r dde yna rydych yn darllen o'r dde i'r chwith. Os ydy e'n wynebu i'r chwith rydych yn darllen o'r chwith i'r dde - fel rydyn ni'n gwneud. I gymhlethu pethau, weithiau maen nhw'n darllen o'r top i'r gwaelod!

#### **Ar beth oedd yr Hen Eifftiaid yn ysgrifennu?**

Ar gorsen papyrus, planhigyn tal sy'n tyfu mewn afonydd neu dir gwlyb. Byddai coesau tal y planhigion - oedd yn wag yn y canol - yn cael eu hagor allan, eu sychu a'u glynu wrth ei gilydd i wneud tudalennau.

Byddai'r Eifftiaid hefyd yn cerfio hieroglyphs ar gerrig a'u paentio ar waliau beddrodau.

#### **Gyda beth oedd yr Hen Eifftiaid yn ysgrifennu?**

Gyda phen- corsen denau a siarp - ac inc. Byddent yn malu planhigion a'u cymysgu gyda dŵr i wneud inc a phaent.

#### **Ble'r oedden nhw'n defnyddio'r ysgrifen?**

Mewn amryw o lefydd fel ysgolion, ar waliau beddrodau, mewn caeau, mewn temlau mewn rhyfel ac yn y llywodraeth.


## Craidd

### Sbardun 3 – Gwarchod eich ffôn

#### GWARCHOD EICH FFÔN SYMUDOL

(addasiad o daflen Directgov, dydd Mawrth, Ionawr 2008)

Chi, yn eich ardegau, ydy'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael rhywun yn dwyn eich ffôn. Mae hynny yn boen. Nid dim ond y ffôn fyddwch yn ei gollu ond y rhifau, y negeseuon, eich lluniau a phopeth arall rydych chi wedi llwytho.



#### Diogelu eich ffôn

Mae cadw cofnod o wneuthuriad a model eich ffôn a rhif y teclyn ei hun (rhif IMEI yn syniad da. Mae'r rhif i'w weld tu ôl i'r batri, neu drwy ffonio \*#06#. Cadwch y manylion hyn mewn man diogel ac ar wahân i'ch ffôn. Bydd yn rhaid i chi eu rhoi i'ch darparwr gwasanaeth os byddwch yn colli eich ffôn neu os bydd yn cael ei ddwyn.

Mae gan bob ffôn nodweddion diogelwch. I ddeall sut i'w defnyddio edrychwch ar lawlyfr cyfarwyddiadau eich ffôn. Er enghraifft, gallwch roi rhif pin ynddo ac yna rhaid teipio'r rhif hwn cyn y gallwch chi ffonio. Dim ond chi fedr ddefnyddio'r ffôn wedyn.

#### Edrychwch o'ch cwmpas



## **Cofrestru**

Gallwch gofrestru eich ffôn hefyd gyda'r Gofrestr Ffonau Symudol Genedlaethol. Bydd hyn yn help i'r heddlu ddychwelyd eich ffôn i chi os caiff ei ddwyn. Dylech hefyd gofrestru eich ffôn gyda darparwr eich rhwydwaith.

## **Hysbysu**

Os byddwch yn colli eich ffôn neu os caiff ei ddwyn rhowch wybod i'r heddlu ar unwaith. Dylech hefyd gysylltu â darparwr eich rhwydwaith. Byddant hwy yn gallu blocio'r ffôn ei hun a'r cerdyn SIM. Fydd neb yn gallu eu defnyddio wedyn.

## **Dychwelyd**

Mae'r heddlu yn cau'r rhwyd am ladron ffonau symudol. Mae hyn yn golygu bod mwy o obaith i chi gael eich ffôn yn ôl.

## Estynnol

### Sbardun 1 – Yr Heddlu ar Rwydweithiau Cymdeithasol



Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gwahodd pobl i ymuno â nhw ar dudalen Facebook swyddogol yr heddlu neu i'w dilyn ar Twitter.

Drwy'r safleoedd rhyngweithio cymdeithasol hyn mae'n bosibl i unrhyw un yn unrhyw ran o'r byd gael diweddariadau rheolaidd ar yr hyn sy'n digwydd ar draws Gogledd Cymru. Mae'r dudalen Facebook hefyd yn cynnwys newyddion, manylion am yr ymgyrchoedd diweddaraf a gwybodaeth am sut i riportio troseddau. Mae hefyd yn cysylltu â safleoedd eraill fydd yn rhoi gwybodaeth am amrywiaeth eang o weithgareddau'r heddlu.

Meddai Swyddog Marchnata ac Ymgysylltiad Cymunedol Heddlu Gogledd Cymru, Delyth Jones: "Mae rhwydweithio cymdeithasol yn ffordd ardderchog o gyfathrebu'n gyflym ac yn eang. Yn wyneb y ffaith bod niferoedd cynyddol o bobl yn cyfathrebu trwy safleoedd fel Facebook a Twitter, rydym wedi manteisio ar y cyfle hwn i'w defnyddio i roi'r newyddion diweddaraf i'r cyhoedd ac i apelio am wybodaeth.

"Mae ein tudalen Facebook wedi bod yn hynod o lwyddiannus ers i ni ei sefydlu yn yr haf 2010. Ar hyn o bryd mae gennym 3,666 o bobl yn ein hoffi a 8,890 o ddilynwyr ar Twitter ac mae'r nifer yn cynyddu'n ddyddiol.

"Mae'n ffordd ardderchog o gysylltu â phobl. Mae'n syml i'w ddefnyddio ac er bod gennym groeso agored, rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o gysylltu'n ehangach â'n cymunedau, i ddeall eu hanghenion yn well ac i gael adborth ar ein gwasanaethau. Mae safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn rhad .

Meddai Rheolwr Gwefan yr Heddlu, Shaun Barritt: "Mae pob cenhedlaeth erbyn hyn yn defnyddio safleoedd rhwydweithio a byddem wrth ein bodd clywed gan bobl sut y byddent yn hoffi gweld ein tudalennau yn datblygu.

"Hyd yn oed ar adeg pan fo arian yn brin byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn dulliau newydd a chost effeithiol o wneud gwahaniaeth i bobl ar draws Gogledd Cymru." I ymuno â'r Heddlu ar eu tudalennau ar Facebook a Twitter, dilynwch y dolenni o wefan yr Heddlu neu teipiwch [www.facebook.com/NWPolice](http://www.facebook.com/NWPolice) neu [www.twitter.com/NWPolice](http://www.twitter.com/NWPolice).

## Estynnol

### Sbardun 2 – Braille – Ddoe, heddiw ac yfory

Bachgen ifanc o'r enw Louis Braille (1809 - 1852) o Coupvray ger Paris ddyfeisiodd braille. Collodd ei olwg trwy ddamwain pan oedd yn dair oed. Aeth i'w ysgol leol ond doedd e ddim yn dysgu llawer trwy wrando yn unig. Pan oedd yn 10 oed enillodd ysgoloriaeth i gael ei addysg yn y Sefydliad Brenhinol ar gyfer Pobl Ifanc Dall ym Mharis. 14 llyfr anferth oedd yno gyda'r llythrennau wedi eu codi. Roedd Louis yn awchu am fwy o wybodaeth.

Yna, yn 1821, pan oedd Louis yn 12 oed, ymwelodd cyn filwr â'r ysgol a chyflwyno ei ddyfais 'darllen nos' sef côd o 12 dot wedi eu codi. Ei bwrpas oedd galluogi milwyr i rannu cyfrinachau ar faes y frwydr heb siarad ond roedd yn rhy anodd iddynt! Roedd Louis wedi gwirioni gyda'r syniad a symleiddiodd y system i 6 dot. Yna yn 1829 cyhoeddodd y llyfr cyntaf mewn braille.

Go brin y dychmygodd y byddai ei system o ysgrifennu a darllen trwy deimlo â'r bysedd yn dal i gael ei defnyddio ymhen 200 mlynedd!

Erbyn hyn mae wedi cael ei addasu i gwrdd â gofynion pob iaith o Roeg i Zulu. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddangos nodau cerddoriaeth, mathemateg, chwarae gwyddbwyll a gwyddoniaeth.

Alphabet / Yr Wyddor									
•	••	•••	••••	•••••	••••••	•••••••	••••••••	•••••••••	••••••••••
a	b	c	ch	d	dd	e	f	ff	g
•••••	••••	••••••	•••••••	••••••••	•••••••••	••••••••••	•••••••••••	••••••••••••	•••••••••••••
ng	h	i	l	ll	l	m	n	o	p
••••••	•••••••	••••••••	•••••••••	••••••••••	•••••••••••	••••••••••••	•••••••••••••		
r	rh	s	t	th	u	w	y		
Letters used for loanwords									
••••••	•••••	•••••••	••••••••	•••••••••	••••••••••				
j	k	q	v	x	z				
Accents / Accenion									
•	••	•••	••••						
^	¨	˘	˙						

Mae Cymdeithas y Deillion ( RNIB) wedi ymgyrchu dros hawliau pobl ddall a rhannol ddall i allu cyfathrebu trwy'r gair ysgrifenedig ar hyd y blynyddoedd. Erbyn hyn mae gan y gymdeithas dros 25,000 o lyfrau a sgoriau cerdd mewn braille.

Ceisïa'r Gymdeithas gadw braille yn fyw mewn nifer o ffyrdd:

- Cyfrannu miloedd o bunnau tuag at gyhoeddi llyfrau braille bob blwyddyn
- Gweithio gyda mudiadau led-led y byd i sicrhau bod pobl yn dysgu braille a bod technoleg yn dal i gael ei ddatblygu
- Gwerthu cannoedd o wahanol fathau o lyfrau a chyhoeddiadau i helpu pobl i ddarllen ac ysgrifennu braille gan ddefnyddio technolegau newydd
- Trefnu cyrsiau dysgu braille
- Rhoi cymorth i bobl a chwmnïau gyflwyno gwybodaeth mewn braille

Ond fel mae'r byd yn datblygu tybed beth fydd hanes braille yn y dyfodol?

A fydd yn cael ei ddisodli gan dechnoleg newydd fel dyfeisiadau darllen print a sgrin fydd yn troi testun yn eiriau ar lafar?

Mae darllen trwy gyfrifiadur gan ddefnyddio darllenwyr sgrin neu ffeiliau awdio yn rhatach na braille. Ond dydy hynny ddim yn golygu ei fod yn cymryd lle braille yn gyfangwbl ddim mwy nac ydy defnyddio cyfrifiadur ddim yn golygu nad oes raid dysgu llawysgrifen.

Dywed rhai bod braille yn fwy cywir na throsleisio llafar. Mae'n haws gweld camgymeriadau fel camsillafu wrth ddarllen braille nac wrth wrando. Mae'n fwy cyfleus hefyd ar gyfer pethau fel nodi rhywbeth i lawr yn sydyn neu labelu.

Ar y llaw arall gellir cadw llyfr cyfan ar ddisg neu go bach yn hytrach na defnyddio pentyrrau o bapur.

Mantais dyfeisiadau radio cludadwy sy'n gallu sganio testun a'i drosi i braille ydy mynediad i wybodaeth ysgrifenedig mewn unrhyw fan. Yn yr un modd mae llyfrau electronig cludadwy yn hwyluso mynediad i wybodaeth.

Ni all neb ragweld y dyfodol ond bydd rhai dyfeisiadau technolegol yn sicr o gymryd lle braille. Ond, fel y dywedodd Jenny, sy'n ddall,

"Braille ydy eich papur a phensel mewn bywyd. Dydy e ddim yn dibynnu ar fatri a thrydan a dydy e byth yn crashio! Dylai gael ei ddefnyddio ar y cyd â thechnoleg fodern i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar beth sydd gan fywyd i'w gynnig."



## Estynnol

### Sbardun 3 – Wyt ti wedi ysgrifennu llythyr?

Roedd llawer mwy o ysgrifennu llythyrau ers talwm. Flynyddoedd maith yn ôl byddai negeswyr yn cario llythyrau o le i le. Yn y 6ed ganrif Cyn Crist, ym Mhersia, roedden nhw'n cario negeseuon 100 milltir y dydd trwy newid ceffylau. Yng Ngroeg roedd athletwyr yn cario llythyrau. Rhedodd athletwr o'r enw Philonides, 148 milltir mewn un diwrnod! Pan gafodd y Swyddfa Bost ei chreu ym Mhrydain yn 1860 y Royal Mail, sef y Goets Fawr oedd yn cario llythyrau a pharseli o Lundain i Gaergybi.

Ar gefn ceffyl neu ar droed y byddai postmyn yn cario llythyrau ar y dechrau. Wedyn daeth y beic ac erbyn heddiw y fan. Ond beth fyddwn ni'n ei gael trwy'r post? Ychydig iawn, iawn o lythyrau personol, llai a llai o gardiau post gan bobl ar wyliau a gormod o lythyrau yn gofyn am arian neu gyfraniad neu yn hysbysebu.

Ond a ddaw ysgrifennu llythyrau i ben yn gyfangwbl? Ai dim ond mewn amgueddfa y byddwn ni'n gweld blwch postio?

Bu ein gohebydd yn holi pobl ar y stryd yn Llandudno, gwrandewch ar y clip sain i glywed eu hymateb.

## Heriol

### Sbardun 1 – Smartphones

Gwneud pethau yn ddigidol ydy'r ffordd hawddaf o ddysgu! Ar gael i chi unrhyw bryd mewn unrhyw le! Nid eich cadw mewn cysylltiad yn unig a wna'r ffonau smart ond gwneud y gwaith drosoch chi!

Mae'r manteision yn ddirifedi! Cewch fynediad cyflym i'r we 24-7 o drên, o fws, o westy, o dafarn... ble bynnag y byddwch a does dim angen i chi gadwyno eich hun wrth gyfrifiadur neu gario gliniadur gyda chi i bobman.

Gellwch ddefnyddio rhaglenni dysgu ble bynnag y byddwch a dysgu iaith. Mae cyfieithu ar Google yn ffordd wych o ddysgu geiriau, ymadroddion, gramadeg ac atalnodi Saesneg. Efallai eich bod yn cael paned o de mewn caffi ac yn dod ar draws gair dieithr wrth ddarllen y papur. Agorwch y geiriadur ar y ffôn a dyna gael yr ystyr ar unwaith! Dim angen cario geiriadur i bobman bellach!

Gwario punnoedd ar lyfrau neu dalu dirwyon hyd eich braich yn y llyfrgell? Na, dim mwy! Clic a lawrlwytho eich hoff lyfrau a dyna chi! Maent yno am ddim i chi! A does dim angen colli eich tymer wrth chwilio am le i barcio yn y dref!

Rydyn ni'n rhygnu ymlaen ac ymlaen am ailgylchu papur ac yn teimlo'n falch o'n hunain pan welwn ni lond bocs o bapurau yn barod i gael eu hailgylchu. Ond pam maen nhw yno yn y lle cyntaf? Mae papurau fel yrIndependentaThe Daily Telegraphar gael ar y ffôn a does dim angen eu prynu!

A pha ffordd well o ddysgu iaith na thrwy chwarae gemau? Rydych yn dysgu geirfa ac yn adeiladu eich sgiliau mewn dull hwyliog! Mae Scrabble a Novel Word Games Super Pack 1 ar gyfer Palm yn boblogaidd fel llawer o gemau eraill sydd am ddim. Cymrwch eich amser i chwilio am gemau sydd at eich dant a mwynhewch!

Neu beth am ddechrau gyda llun? Yna ewch i chwilio am destun sy'n rhoi gwybodaeth am y llun - boed yn berson, yn lle, neu yn ddigwyddiad. Mae hyn yn cryfhau eich sgiliau darllen Saesneg a'ch gwybodaeth. Gellwch weld neu ddefnyddio lluniau yn rhad ac am ddim o Flickr-Yahoo! a MobileMe Gallery-Apple Inc., Nikon Learn & Explore -Nikon, Inc. ymysg eraill.

Dull arall o ddysgu Saesneg ar eich Smartphone ydy gwylio fideo. Gwrandewch ar siaradwyr Saesneg a chanolbwyntiwch ar eu hynganiad. Dysgwch ystyr y geiriau trwy eu matsio gyda'r hyn a welwch ar y sgrîn. Gellwch hyd yn oed gael apps o'ch hoff nofelau yn cael eu darllen, sef audiobook.

Felly, os am ddysgu iaith a mwynhau ar yr un pryd, ewch ar eich Smartphone a byddwch yn smart go iawn!

## Heriol

### Sbardun 2 – Pla ar gymdeithas

Fel y gŵyr pawb mae ffonau symudol yn arbed bywydau ac yn ffordd ardderchog o gysylltu â phobl mewn argyfwng. Fel mam i ddau o blant rydw i'n eu gweld nhw'n ddefnyddiol iawn i gadw gafael ar fy mhlant pan fyddant allan o'm golwg. Serch hynny, mae ffonau symudol wedi mynd yn bla ar gymdeithas erbyn hyn. Does dim dianc rhagddyn nhw! Ble bynnag byddwch chi maen nhw yno. Ar drên, ar fws, mewn archfarchnad, mewn sinema a theatr, mewn priodas a chyngerdd. Mae'n warthus o beth bod pobl yn tarfu ac yn amharu ar eraill heb iotyn o gydwybod.

Mae angen i bobl godi ar eu traed a chwifio eu baneri protest. Gresyn nad oes mwy o bobl yn lleisio eu barn yn groch fel Trevor Harris, perchennog sinema Y Palace yn Hwlfordd. Mae e wedi talu am gamerâu drudfawr i fonitro pobl sy'n defnyddio eu ffonau yn y sinema. Os bydd e'n eu gweld nhw'n ffonio, allan â nhw i'r oerfel a'r glaw!

Chwarae teg i'r llywodraeth maen nhw wedi deffro o'u trwmgwsg ac wedi cyflwyno deddf i wahardd gyrrwyr rhag gyrru a ffonio. Ydy pobl yn cydymffurfio â'r ddeddf? Ydyn nhw'n poeni am ddirwy? Nac ydyn! Edrychwch ar y gyrrwyr! Mae'n anodd tynnu cast o hen geffyl!

Efallai y byddwch yn fy ngweld fel deinosaor o'r cynfyd yn cwyno ac yn achwyn am bethau modern. Ond, wir yr, dydw i ddim! Rwyn un o hoelion wyth E-bay, yn prynu popeth ar-lein, o fwyd i ddillad, yn bancio ar lein ac ar Gweplyfr a Trydar bob nos. Ond dydw i ddim am guddio fy mhen yn y tywod. Rhaid wynebu ffeithiau.

Wyddech chi fod un o bob pump o blant wedi cael eu bwlio ar eu ffôn symudol? Wyddech chi fod 'happy slapping' ar gynnydd? Mae'r bobl ifainc anwaraidd hyn yn ffilmio ymosodiadau a'u hanfon at eraill. Cywilyddus!

Does arna i ddim eisiau dal ati a rhygnu ymlaen ac ymlaen yn erbyn ffonau symudol ond mae'n rhaid i ni ystyried nad ydyn ni wir yn gwybod am eu heffeithiau hir dymor. Ydyn nhw'n achosi alzheimers? Ydy dynion yn fwy tebygol o fod yn anffrwythlon o'u defnyddio? Ydyn nhw'n gwneud niwed i'r ymennydd?

Ond wyddoch chi beth? Dydy'r holl ofnau yna ddim yn gwneud i mi daflu fy ffôn i'r bin agosaf chwaith! 'Pam?' meddech chi. Wel, mi ateba i gyda chwestiwn. Ydw i'n peidio â gyrru ar hyd yr A44 er mod i'n gwybod mai dyna'r darn peryclaf o ffordd ym Mhrydain? Nac ydw. Ydw i'n peidio â phrynu oddi ar E-bay er mod i'n gwybod bod yna ddihirod yn y byd mawr sy'n ceisio dwyn fy arian a'm manylion personol? Nac ydw. Gofal a chymedroldeb yw'r geiriau allweddol. Byw yn ofalus a chymedrol a defnyddio'r ffôn yn ofalus ac yn gymedrol.

## Heriol

### Sbardun 3 – Rhwydweithiau Cymdeithasol

Facebook, YouTube, Twitter a MySpace, yw rhai o'r gwefannau cymdeithasol mwyaf poblogaidd ym Mhrydain. Cyfle gwych i gadw mewn cysylltiad gyda ffrindiau, medd rhai, cyfle euraid i fwlio a gwaeth, medd eraill.

Yn ddiweddar bu cafodd pobl ifanc 13 -16 oed gyfle i roi eu barn ar wefannau cymdeithasol mewn fforwm ar-lein.

Dyma ddetholiad o'u hymatebion.

#### FFORWM TRAFOD



#### Daniboi

Mae'n dda oherwydd rydych yn gallu cadw mewn cysylltiad gyda ffrindiau. Mae'n ddrwg am fod pobl yn cael eu bwlio ac mae rhai yn rhoi manylion personol. Fe ddylen nhw ychwanegu mwy o reolau.



#### ElenBenfelen

Sa i yn bersonol yn cal mynd ar Facebook na Twitter, dim ond msn a phethe felna ar BBC. Mae mam a dad yn meddwl bod rheini yn ddiogel! Wi'n credu y gall pobl fyw hebddyn nhw.



#### MrCymdeithasol

Ystyr 'cymdeithasol' ydy cymysgu gyda phobl. Os mai gofyn ydy mynd ar wefannau yn golygu cymysgu gyda phobl, wel, ydy, mae o! Dydy o ddim yn gymysgu 'corfforol' ond mae'n gymysgu trwy sgwrsio a rhannu barn ag ati. Ond ai dyna mae'r cwestiwn yn ei ofyn?



#### MerchFferm4

Rydw i'n gweld Facebook a Twitter yn handi i gadw mewn cysylltiad gyda fy ffrindiau i gael help gyda gwaith cartref neu i sicio pa amser mae rhywbeth yn digwydd- fel noson rhieni!



## MarcYdwl

Mae teulu mam a dad yn byw yng Ngogledd Cymru ac rydyn ni yn byw yn sir Benfro. Yn lle siarad ar y ffôn byddan nhw yn cysylltu gyda'r teulu a hen ffrindiau trwy Facebook.



## Tash32

Mae'n hawdd osgoi bwlio trwy beidio derbyn pobl dydych chi ddim yn eu hoffi ar eich rhestr o ffrindiau. Wedyn dydyn nhw ddim yn cael gwybodaeth amdanoch na gwneud drwg i chi. Mae llawer o bobl yn ddigon stiwpid i roi eu rhifau ffôn a'u cyfeiriad ar Facebook a dydyn nhw ddim yn blocio'r wybodaeth yna. Mae safleoedd cymdeithasol yn hollol saff cyn belled â'ch bod yn eu defnyddio'n gywir e.e. peidio a derbyn dieithriaid, pobl dydych chi ddim yn eu hoffi, newid eich settings fel mai dim ond ffrindiau sy'n gallu gweld beth sydd ar eich tudalen. Dim ond ychydig o synnwyr cyffredin sydd ei eisiau a defnyddio'r gwefannau yn gall!



## MissHuws

Weithiau mae straeon yn cychwyn ar y we. Mae rhywbeth diniwed yn cael ei ddweud ond mae'n newid fel mae pobl eraill yn siarad amdano. Rhywbeth tebyg i Chinese Whispers.



## RichB

Mae enwogion ar Facebook a Twitter ac rydych yn cael gwybodaeth ddiddorol amdany'n nhw fel be maen nhw'n wneud yn eu hamser hamdden a be ydy eu barn ar bethau. Mae fel darllen amdany'n nhw mewn cylchgrawn.



## Barti

Mae fy nhad ar Gweplyfr Sul, gŵyl a gwaith. Rydw i'n poeni amdano oherwydd rydw i wedi clywed ei fod fel cyffur a'ch bod yn gallu mynd yn gaeth iddo. Mae rhai pobl arno trwy'r nos ac yna'n methu gwneud eu gwaith am eu bod yn rhy gysglyd. Mae eraill yn mynd arno yn slei pan maen nhw i fod i weithio. Mae pobl wedi colli eu swyddi am eu bod yn gaeth i'r we a phriodasau wedi torri. Mae arna i ofn i hynny ddigwydd i fy nhad.



## Curiad

Mae'n siwr eu bod yn hawdd mynd yn hooked ar Facebook a Twitter os ydych yn berson busneslyd! Y bobl mae gen i biti dros nhw ydy'r rhai sydd ar Facebook a Twitter o hyd ac o hyd am bod nhw'n unig. Does gan nhw ddim ffrindiau go iawn. Pobl eraill mae gen i biti drostyn nhw ydy'r rhai syn rhoi lluniau o nhw eu hunain ar Facebook - pobl sydd mewn cariad â nhw eu hunain yn fy marn i!



## PysgodynAur

Rydw i wedi ffeindio fy holl ffrindiau o fy hen ysgol ar Facebook ac mae hynny yn grêt. Fasnwn i ddim yn gwybod dim amdany'n nhw oni bai amdano.

Dydw i ddim yn credu bod Twitter cystal oherwydd gall rhywun rhywun eich dilyn.



## CyrIs98

Meddwl bod llun yn bwysig i chi gael gweld sut berson ydy e. Er, gall fod yn llun o rywun arall!